# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth

## Cofnodion y cyfarfod

Dyddiad: 14/02/17

Lleoliad: Ystafell Gynadledda C

Yn bresennol:

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Suzy Davies AC | Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth |
| Eluned Morgan AC | |
| Russell George AC | |
| Huw Irranca-Davies AC | |
| Jacqueline Janssen | Cymdeithas Gweithredwyr Hunan Ddarpar Cymru |
| Jan (John) Meulendijk | Cymdeithas Gweithredwyr Hunan Ddarpar Cymru |
| David Chapman | Cymdeithas Lletygarwch Prydain |
| Adrian Barsby | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Paul Loveluck | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Adrian Greason-Walker | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Liz Williams | Twristiaeth Sir Benfro |
| Merlin Tolley | BH&HPA |
| Huw Pendleton | BH&HPA |
| Amanda Davies | Bwrdd Cynghori ar Dwristiaeth Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Craig Lawton | Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth |
| Mark Isherwood AC | |
| Peter Cole | UTB |

Ymddiheuriadau:

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Neil McEvoy AC | |
| Neil Hamilton AC | |
| Adam Price AC | |

Crynodeb o'r cyfarfod:

Gwnaed diwygiadau i'r cofnodion blaenorol fel a ganlyn:

Yn y flwyddyn 2000, roedd ardrethi busnes yn tua £2,000 ~~am bob £100,000 o drosiant~~

Yn 2005, fe'i cynyddwyd i £7,500

Yn 2010, fe'i cynyddwyd ~~eto~~ i £13,000

~~Mae rhai busnesau wedi gweld eu hunain yn gorfod mynd i'r llys bob pum mlynedd er mwyn herio penderfyniad Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mewn sawl achos, maent wedi llwyddo.~~

Mae rhai busnesau bellach yn gweld y bydd yn rhaid iddynt fynd i'r llys eto (sef dwywaith mewn pum mlynedd). Nid yw llawer o fusnesau yn llwyddo i gael gostyngiad ystyrlon - mae'r nifer hwnnw mewn gwirionedd yn eithaf bach. Roedd llwyddiant dyfarniad Rosemoor (ni ein hunain) yn eithriad: un sy'n dangos y gall Asiantaeth y Swyddfa Brisio fynd o'i le mewn ffordd fawr, a bod hynny'n digwydd.

Cynghorodd DC o Gymdeithas Lletygarwch Prydain fod y busnes y cyfeiriodd ato fel astudiaeth achos yn fusnes yn Llandeilo, nid busnes yn Llandudno

Roedd busnesau wedi gweld cynnydd cymaint ag y canlynol: £25,500 i £28,250 a £16,500 i £25,000

Rhoddodd SD y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr ymateb gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio o ran y fformiwla ardrethi busnes yn ogystal â'r diweddaraf o Gofnod y Trafodion y Cynulliad o ran polisi ardrethi busnes gan Lywodraeth Cymru. (Mae'r ddau ynghlwm er mwyn cyfeirio atynt).

Nododd DC y bydd yn fuan yn cael cyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn hyn.

Gofynnodd EM a yw'r ardrethi busnes wedi effeithio ar rai sectorau twristiaeth fwy nag eraill.

Cafwyd trafodaeth yn dilyn hyn o ran y cyfleusterau sydd ar gael mewn busnesau a'r rhai y mae awdurdodau lleol yn eu cyflenwi eu hunain, e.e. gwybodaeth i dwristiaid a thoiledau

Galwyd ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio i fynychu cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol i drafod eui fformiwlâu ymhellach a sut y mae'n cyfrifo'r cynnydd mewn ardrethi busnes

Gofynnodd SD a oedd yr Asiantaeth wedi bod i unrhyw un o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Cynulliad i roi tystiolaeth.

Dywedodd RG efallai bod yr Asiantaeth wedi mynychu cyfarfod Pwyllgor yr Economi. Wedi cadarnhau ers hynny nad yw wedi mynychu.

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi rhoi tystiolaeth o'r blaen yng Nghyngor Sir Penfro.

Awgrymodd HID fod enghreifftiau cymysg iawn o brofiadau da a drwg i fusnesau.

Dywedodd LW ei bod yn cynghori na allai'r Asiantaeth ymdrin ag apeliadau neu gymorth i ddarparu gwybodaeth tan 1 Ebrill 2017.

**Penderfynwyd: Unwaith eto i wthio am gynrychiolydd o'r Asiantaeth i fynychu un o gyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol i drafod y broses a'r penderfyniadau gyda'r aelodau.**

Rhoddodd PL y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol ar waith Cynghrair Twristiaeth Cymru o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd. Ar hyn o bryd mae'n ymgynghori â'r aelodau mewn perthynas â hyn ac yn edrych ar y cyfleoedd a'r heriau a ddaw yn ei sgil.

Nodi bod angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fabwysiadu'r polisïau cywir i hyn fod yn llwyddiant a bod angen iddynt ystyried pa lefelau o ymyrraeth a chefnogaeth sydd eu hangen a'r hyn fydd yn arwain at y canlyniadau gorau.

Nodi nifer o feysydd allweddol:

1. Mae angen fframwaith datblygu strategol erbyn 2020
2. Cefnogaeth ar gyfer mwy o fuddsoddiad cyfalaf a gwelliannau
3. Cyllideb marchnata mwy ystyrlon ar gyfer twristiaeth yng Nghymru. Mae gan yr Alban £55 miliwn eleni. Mae angen tua £25 miliwn ar Gymru

   Ar hyn o bryd mae gan Gymru £10 miliwn ar gyfer twristiaeth a £4 miliwn arall ar gyfer digwyddiadau.

   I ychwanegu ymhellach at gymariaethau, mae gan yr Alban tua 1,000 o bobl yn gweithio ar brosiectau polisi twristiaeth hefyd.

4. Polisi ar drethiant a fydd yn annog y diwydiant twristiaeth, yn ymwneud â TAW ac ardrethi. Hoffai Cynghrair Twristiaeth Cymru weld

hyn yn cael ei wneud ar y cyd â Llywodraeth y DU yn hytrach na threthi pellach yn cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru.

5. Polisi i wella sgiliau a sicrhau bod gwladolion yr UE yn aros. Mae angen pont rhwng Addysg Bellach ac Addysg Uwch

6. Mwy o waith ar seilwaith twristiaeth allweddol, megis band eang ac arwyddion.

Cafwyd trafodaeth wedi hynny am rôl prentisiaethau, sgiliau, hyfforddiant, sut y caiff swyddi a rolau lletygarwch a thwristiaeth eu gweld gan bobl ifanc a phobl sy'n chwilio am waith, yn ogystal â chan gyflogwyr.

Cytunwyd fod angen cael mwy o gyswllt rhwng cyrsiau a addysgir mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion a pha rolau sydd ar gael yn y gweithle ac y mae cyflogwyr yn gobeithio eu llenwi. Daw hyn yn rhannol yn sgil mwy o ymgysylltiad rhwng cyflogwyr y sector a cholegau, prifysgolion, a Llywodraeth Cymru.

Mae hefyd angen gwella'r canfyddiad o swyddi yn y sector twristiaeth a lletygarwch.

Cytunwyd fod cyfle i Gymru arwain y ffordd mewn polisi ar sgiliau a hyfforddiant o ran twristiaeth.

Ychwanegodd AGW fod angen gwneud mwy o waith ymchwil i hyn fel bod gwybodaeth a data ystyrlon ar gael.

Ychwanegodd HID y byddai'n anodd cael cytundeb rhwng holl sectorau a rhanbarthau y DU a Chymru o ran ffigurau ymfudo oherwydd profiadau gwahanol.

Ychwanegodd SD fod David Jones AS, y Gweinidog dros Adael yr UE, wedi rhoi tystiolaeth i Bwyllgor y Cynulliad yn ddiweddar a chadarnhaodd y dylai gwladolion yr UE allu aros.

Cytunwyd fod trafodaeth gyda cholegau, hyfforddwyr a darparwyr sgiliau, a Llywodraeth Cymru yn allweddol i symud y drafodaeth yn ei blaen a chael eglurder o ran polisi prentisiaethau a hyfforddiant.

**Penderfynwyd: Cysylltu â Julie James AC, Gweinidog dros Sgiliau Llywodraeth Cymru, i ofyn iddi fynychu un o gyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol.**

**Yn dilyn hyn, hefyd yn cysylltu â grwpiau fel Colegau Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bach, Pobl yn Gyntaf, a'r Arsyllfa Sgiliau i drafod hyfforddiant a phrentisiaethau mewn perthynas â thwristiaeth a lletygarwch.**

Atgoffodd PL y Grŵp Trawsbleidiol fod twristiaeth yn bwysig i ac o ganlyniad i faterion a diwydiannau eraill hefyd. Wedi rhoi enghraifft o sut y rhoddodd Cynghrair Twristiaeth Cymru dystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ynghylch sut y gall polisïau sy'n ymwneud â hyn effeithio ar dwristiaeth.

Cytunodd y Grŵp Trawsbleidiol y byddai'n gwneud fel a ganlyn:

**Ysgrifennu at Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gofyn am gynrychiolydd o'r Asiantaeth i fynychu un o gyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol i drafod y broses a'r penderfyniadau gyda'r aelodau.**

**Gwahodd Gweinidog dros Sgiliau Llywodraeth Cymru i fynychu a thrafod amcanion a pholisi sgiliau a hyfforddiant yn ogystal ag ymgysylltu â busnesau, mewn twristiaeth a lletygarwch yn benodol.**

**Ysgrifennu hefyd at grwpiau fel Colegau Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bach, Pobl yn Gyntaf, a'r Arsyllfa Sgiliau i drafod yr un mater.**